



**Cyngor Caerdydd**

**Datganiad Polisi Trwyddedu Masnachu  
Stryd**

## Cynnwys

Cyflwyniad

Dynodi Strydoedd

Strydoedd Trwydded

Strydoedd Caniatâd

Strydoedd Gwaharddedig

Troseddau

Pedleriaid

Materion Amrywiol

Atodiad A - Strydoedd a Ddynodwyd fel Strydoedd Caniatâd ar gyfer Masnachu Stryd

Atodiad B - Strydoedd a ddynodwyd fel rhai lle mae masnachu ar y stryd wedi'i wahardd

## Cyflwyniad

Mae masnachu ar y stryd yng Nghaerdydd yn cael ei reoli dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982. Polisi'r Awdurdod Trwyddedu yw creu amgylchedd masnachu stryd sy'n cyd-fynd â masnach ar safle, sy'n sensitif i anghenion trigolion, sy'n darparu amrywiaeth a dewis defnyddwyr, ac sy'n ceisio gwella cymeriad, awyrgylch a diogelwch amgylcheddau lleol tra'n lleihau'r posibilrwydd o rwystr a niwsans.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod pob cais ac mae'n penderfynu arnyn nhw yn ôl eu teilyngdod unigol. Er hynny, er cysondeb, bod yn agored, a thegwch, mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu nifer o bolisiau ac egwyddorion cyffredinol dros y blynyddoedd er mwyn llywio'r gwaith o ystyried ceisiadau am drwyddedau masnachu stryd a chaniatâd.

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â gwerthu neu ddatgelu neu gynnig gwerthu unrhyw beth mewn unrhyw stryd neu ran o stryd sy'n cynnwys unrhyw ffordd, troedffordd, traeth neu ardal arall yng Nghaerdydd y mae gan y cyhoedd fynediad ati heb orfod talu. Mae manylion y polisiau a'r egwyddorion sy'n berthnasol i drwyddedu masnachwyr stryd wedi'u nodi yn y ddogfen hon. Yr egwyddor uwch a fabwysiadwyd gan yr awdurdod trwyddedu yw osgoi rhwystro, lleihau niwsans ac amddiffyn y cyhoedd.

Oherwydd bod y polisi masnachu stryd yn esblygu'n barhaus, mae'n ofynnol ar achlysuron niferus i Bwyllgor Diogelu'r Cyhoedd addasu neu ddiweddarau ei bolisi ac efallai na fydd newidiadau'n cael eu hadlewyrchu yn y ddogfen bolisi hon ar unwaith, sy'n ganllaw yn unig.

## 1. Dynodi Strydoedd

### 1.1 Awdurdod i Ddynodi

Pan fo'n angenrheidiol er budd diogelu'r cyhoedd i atal rhwystr ac osgoi niwsans, bydd yr awdurdod yn dynodi strydoedd yng Nghaerdydd fel strydoedd Caniatâd, Trwydded neu Strydoedd Gwaharddedig at ddibenion masnachu ar y stryd.

### 1.2 Diffiniadau Stryd

Mae stryd drwydded yn stryd lle gwaherddir masnachu stryd heb drwydded a roddwyd gan yr awdurdod trwyddedu a stryd caniatâd yw un lle na chaniateir masnachu stryd heb ganiatâd yr awdurdod trwyddedu. Mae stryd waharddedig yn un lle na chaniateir masnachu stryd o unrhyw fath.

### 1.3 Ystyriaethau Dynodi

Wrth ystyried priodoldeb dynodiad bydd yr awdurdod yn ystyried y materion canlynol:

- P'un a oes digon o le yn y stryd i alluogi lle i gael ei ddefnyddio gan fasnachwr stryd heb achosi rhwystr, ymyrraeth nac anghyfleustra gormodol i bobl sy'n byw, yn gweithio neu'n defnyddio'r stryd
- Unrhyw effaith ar ddiogelwch ar y ffyrdd, naill ai yn deillio o leoliad stondin neu o gwsmeriaid yn ymweld neu'n gadael

- A ellid caniatáu masnachu am gyfnodau byr neu dros dro heb achosi niwsans o'r fath
- P'un a fyddai amwynder cyhoeddus yn dioddef pe rhoddid caniatâd i fasnachu ar y stryd
- P'un a fyddai masnachu stryd yn niweidio cynnydd economaidd masnachwyr eraill ar y stryd
- Mynediad ac allanfa ddiogel cwsmeriaid a staff o'r lleoliad a'r cyffiniau agos

## 2. Strydoedd Trwydded

### 2.1 Dull Dynodi Cyffredinol

Yn gyffredinol, bydd yr awdurdod trwyddedu o'r farn ei bod yn briodol dynodi stryd fel stryd drwydded seiliedig ar y math ffurfiol o fasnachu lle gall masnachu ddigwydd ar sail barhaol ond lle mae angen rheolaeth llym ar le cyfyngedig. Mae angen trwydded i fasnachu mewn strydoedd o'r fath.

### 2.2 Ystyriaethau Cais

Bydd yr awdurdod yn ystyried pob cais am drwydded masnachu stryd mewn ffordd gyson, deg a chymesur. Wrth ystyried cais, bydd yr awdurdod yn dymuno sicrhau bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i fasnachu heb achosi niwsans nac anghyfleustra a bydd yn ystyried y materion canlynol:

- Nid oes digon o le ar y stryd i'r ymgeisydd gymryd rhan yn y masnachu y mae'n dymuno cymryd rhan ynddo heb achosi ymyrraeth ormodol neu anghyfleustra i bersonau sy'n defnyddio'r stryd
- Mae digon o fasnachwyr eisoes yn masnachu ar y stryd o siopau neu fel arall yn y nwyddau y mae'r ymgeisydd yn dymuno masnachu ynddynt
- Faint o amser y dymunir masnachu yn y stryd honno
- Addasrwydd yr ymgeisydd o ran unrhyw hanes o euogfarnau troseddol neu reswm arall
- Os yw'r ymgeisydd ar unrhyw adeg wedi dal trwydded neu ganiatâd ac wedi gwrthod neu esgeuluso talu'r ffioedd
- Methiannau blaenorol yr ymgeisydd, heb esgus rhesymol, i wneud defnydd i raddau rhesymol o drwydded masnachu ar y stryd blaenorol
- P'un a oes gan yr ymgeisydd arferion addas i reoli gwastraff ac atal sbwriel

### 2.3 Uchafswm Nifer y Masnachwyr

Er mwyn osgoi niwsans, mae'r awdurdod yn caniatáu uchafswm o saith masnachwr stryd trwyddedig yng Nghaerdydd mewn mannau sydd wedi'u dynodi fel rhan o'r stryd ac ni chaniateir masnachu stryd o fewn yr ardaloedd i gerddwyr, ac eithrio'r masnachwyr presennol.

## 2.4 Polisi Ceisiadau Newydd

Mae'r awdurdod wedi penderfynu, tra bod y sefyllfa bresennol yn parhau, ni fydd unrhyw geisiadau newydd yn ardal ganolog y ddinas yn cael eu rhoi gan nad ystyrir nad oes unrhyw leoliadau addas eraill ar gyfer masnachwyr stryd yn yr ardal.

## 2.5 Y Broses Ymgeisio

Dylid cyfeirio ceisiadau masnachu stryd yn yr ardal ganolog ddiffiniedig at yr awdurdod trwyddedu a fyddai wedyn yn ymgynghori â'r Prif Swyddog Traffig a Thrafnidiaeth i weld a fyddai'r lleoliad yn briodol. Byddai cyfeirio ceisiadau masnachu stryd y tu allan i'r ardal ganolog ddiffiniedig yn cael eu cyfeirio at y Prif Swyddog Traffig a Thrafnidiaeth a fyddai wedyn yn ymgynghori â'r awdurdod trwyddedu.

## 2.6 Amrywiadau Achlysurol

Gall Masnachwyr Stryd Trwyddedig wneud cais i'r awdurdod trwyddedu am ganiatâd achlysurol i amrywio eu horiau ar ddydd Sul a phan fydd digwyddiadau yn cael eu cynnal yn Stadiwm Principality.

## 2.7 Strydoedd Trwydded Dynodedig

Mae rhannau o'r strydoedd canlynol wedi'u dynodi fel Strydoedd Trwydded at ddibenion masnachu stryd:

- Bangor Street
- Heol Ddwyreiniol y Bont-faen
- Stryt y Syfwr
- Stryd Working

## 2.8 Proses ymgynghori ar gyfer safleoedd newydd

Cyn creu safle masnachu stryd newydd, bydd y Cyngor yn ymgynghori ac yn ceisio sylwadau ysgrifenedig gan:

- Meddianwyr adeiladau sy'n union gyfagos ac gyferbyn â'r safle dan sylw
- Cyngorwyr Ward
- Cyngor y Plwyf
- Heddlu De Cymru
- Yr Awdurdodau Cynllunio a Phrifyrdd
- Deiliaid presennol caniatâd masnachu stryd yn yr ardal agos

Bydd y mater wedyn yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Diogelu'r Cyhoedd yr awdurdod.

## 2.9 Cymeradwyaethau Ychwanegol

Nid ystyrir bod rhoi Trwydded Masnachu Stryd yn rhoi unrhyw gymeradwyaeth neu ganiatâd y gallai fod ei angen o dan unrhyw Is-ddeddf, deddfiad neu reoliad ac eithrio Rhan 3, Atodlen 4 o

Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae hyn yn cynnwys y gofyniad i wneud cais llwyddiannus am ganiatâd gan yr awdurdod priffyrdd a chaniatâd cynllunio a/neu ganiatâd hysbysebu.

## 2.10 Amodau Safonol

Mae'r awdurdod trwyddedu wedi cytuno ar amodau safonol y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â nhw.

## 2.11 Cyfyngiadau Gofod

Er mwyn osgoi niwsans a rhwystrau, yn gyffredinol, rhaid i'r ardal a feddiannir gan y masnachwr trwyddedig beidio â bod yn fwy na 3.20 metr o hyd x 2 fetr o led x 2.90 metr o uchder. Rhaid i'r cynhwysydd a ddefnyddir ar gyfer masnachu gael ei godi fel nad yw'n ymwthio nac yn ymestyn y tu allan i derfynau'r ardal drwyddedig mewn unrhyw ffordd. Rhaid i'r holl nwyddau, cynwysyddion (ac eithrio cynwysyddion sbwriel a ddefnyddir at y diben yn unig) neu eitemau eraill y gellir eu gosod ochr yn ochr â'r cynhwysydd neu o amgylch cynhwysydd gael eu cynnwys o fewn yr ardal drwyddedig o 3.20 metr o hyd x 2 fetr o led x 2.90 metr o uchder ac ni chânt yn ymestyn y tu hwnt.

## 3. Strydoedd Caniatâd

### 3.1 Pwrpas Cyffredinol

Mae dynodiad stryd caniatâd yn cwmpasu'r mathau mwy teithiol ac anaml o fasnach lle mae angen math mwy hyblyg o reolaeth.

### 3.2 Caniatâd Seiliedig ar Ddigwyddiadau

Dim ond ar gyfer digwyddiadau mawr penodol yn y Ddinas y rhoddir Caniatâd Masnachu Stryd. Mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau yn yr ardal o amgylch Stadiwm y Principality, fodd bynnag, weithiau cynhelir digwyddiadau o amgylch ardal Neuadd y Ddinas a bydd Caniatâd Masnachu Stryd hefyd yn cael ei roi. Rhestrir isod y strydoedd caniatâd a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ynghyd â manylion y math o safleoedd sydd ar gael ar y strydoedd hynny.

#### Strydoedd Caniatâd:

Gweler Atodiad A

### 3.3 Amodau Safonol

Mae'r awdurdod trwyddedu wedi cytuno ar amodau safonol y mae'n rhaid i bob deiliaid caniatâd gydymffurfio â nhw.

### 3.4 Safleoedd Digwyddiadau Stadiwm Principality

Mae safleoedd ar y strydoedd caniatâd canlynol ar gael yn ystod digwyddiadau yn Stadiwm y Principality:

- Heol y Porth y tu allan i faes parcio NCP x4 (ar gyfer gwerthu nwyddau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau)
- Teras Coldstream x2 (ar gyfer gwerthu bwyd a diod)

Safleoedd sefydlog yw lle mae'n rhaid gwerthu nwyddau gan ddefnyddio cynhwysydd (uchafswm maint 3m x 2m). Safleoedd Symudol yw lle mae'n rhaid cludo nwyddau (nid eu gwerthu o gynhwysydd).

### 3.5 Safleoedd Digwyddiadau Neuadd y Ddinas

Mae safleoedd ar y strydoedd caniatâd canlynol ar gael yn ystod digwyddiadau yn Neuadd y Ddinas:

- Rhodfa'r Brenin Edward VII
- Heol Gerddi'r Orsedd
- Heol Neuadd y Ddinas
- Rhodfa'r Amgueddfa
- Heol y Coleg

### 3.6 Gofynion Ymgynghori

Cyn rhoi caniatâd, bydd yr awdurdod trwyddedu yn gofyn am farn yr Awdurdod Prifffyrdd a'r Awdurdod Gwastraff ac, os yw'n briodol, yr Adran Diogelwch Bwyd.

### 3.7 Gwaredu Sbwriel

Bydd disgwyl i fasnachwyr gael dulliau priodol o waredu sbwriel yn unol â gofynion Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

### 3.8 Canllawiau Amser Masnachu

Er mwyn osgoi rhwystr a niwsans, mabwysiadwyd y canllawiau amser canlynol ar gyfer Caniatâd Masnachu Stryd.

Amseroedd y Gic Gyntaf	Math o ddigwyddiad	Amseroedd Masnachu Nwyddau	Amseroedd Masnachu Bwyd a Diod
13.30	Rowndiau Terfynol Rygbi a Gemau Rhyngwladol	10.00 – 18.00	10.00 – 17.00
15.00	Rowndiau Terfynol Cwpan Pêl-droed	8.00 – 18.00	10.00 – 20.00
15.00	Rowndiau Terfynol Pêl-droed/Rygbi/Gemau Rhyngwladol Eraill	8.00 – 18.00	10.00 – 19.00
17.00	Rowndiau Terfynol Rygbi a Gemau Rhyngwladol	10.00 – 20.00	11.00 – 21.00

Amseroedd y Gic Gyntaf	Math o ddigwyddiad	Amseroedd Masnachu Nwyddau	Amseroedd Masnachu Bwyd a Diod
19.30 – 20.00	Gemau Pêl-droed Rhyngwladol	15.00 – 22.00	15.00 – 22.45
16.00	Cyngherddau Cerddoriaeth/Speedway	12.00 – 22.00	13.00 – 22.45

### 3.9 Gwaharddiad Corn Aer

Er budd diogelwch y cyhoedd, fel mater o bolisi, gwaherddir gwerthu cynn aer gan fasnachwyr stryd trwyddedig mewn digwyddiadau heblaw'r rhai sy'n gysylltiedig â chwaraeon moduro, a bydd unrhyw werthiant yn groes hynny yn arwain at wrthod unrhyw gais dilynol am ganiatâd.

### 3.10 Manylebau Ardal a Ganiateir

Pan roddwyd caniatâd gan y Cyngor i Ddeiliad Caniatâd ddefnyddio cynhwysydd neu stondin, rhaid iddo fod o fath ac arddull a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan y Cyngor a'i leoli'n gyfan gwbl o fewn yr ardal a ganiateir. Yr ardal a ganiateir yw:

- Ar gyfer gwerthu nwyddau sy'n gysylltiedig â gêm, rhaid i'r ardal a feddiannir gan y masnachwr beidio â bod yn fwy na 3 metr x 2 fetr
- Ar gyfer gwerthu nwyddau sy'n gysylltiedig â gêm, rhaid i'r ardal a feddiannir gan y masnachwr beidio â bod yn fwy na 3 metr x 2 fetr

## 4. Strydoedd Gwaharddedig

### 4.1 Rhesymeg Polisi

Er mwyn lleihau niwsans fel mater o bolisi, mae'r strydoedd canlynol wedi'u gwahardd at ddibenion masnachu stryd.

### 4.2 Rhestr o Strydoedd Gwaharddedig

Gweler Atodiad B

## 5. Troseddau

### 5.1 Troseddau Cyffredinol

Mae person sy'n cymryd rhan mewn masnachu stryd mewn stryd waharddedig neu sy'n cymryd rhan mewn masnachu stryd mewn stryd drwydded neu stryd ganiatâd heb fod yn awdurdodedig i wneud hynny neu sy'n mynd yn groes i unrhyw un o brif delerau trwydded masnachu stryd yn euog o drosedd.

## 5.2 Troseddau Cerbydau a Stondinau

Mae person sydd wedi'i awdurdodi gan ganiatâd masnachu stryd i fasnachu mewn stryd ganiatâd, ac sydd yn masnachu yn y stryd honno o fan, cart, berfa neu gerbyd arall neu stondin gludadwy heb gael caniatâd gan y Cyngor yn gyntaf, yn euog o drosedd.

## 5.3 Dull Gorfodi

Er budd diogelu'r cyhoedd ac osgoi niwsans, bydd yr awdurdod trwyddedu yn gweithredu'r gyfraith sy/n ymwneud â masnachu ar y stryd gan weithio gydag asiantaethau partner eraill megis Heddlu De Cymru, Diogelwch Bwyd a Safonau Masnach pan fo angen. Bydd troseddau yn cael eu trin o dan bolisi gorfodi'r awdurdod trwyddedu fel torri deddfwriaeth drwyddedu yn ddifrifol.

## 5.4 Achosion gwaharddiad

Mae'r Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol wedi cael cyfarwyddyd, ar hysbysiad bod personau sydd â thair neu fwy o euogfarnau am fasnachu stryd anghyfreithlon, p'un a yw euogfarnau yn cael eu cael o ganlyniad i erlyniadau'r heddlu neu'r cyngor, i ddechrau achos i gael gwaharddiad gan yr Uchel Lys i atal yr unigolyn rhag parhau i fasnachu'n anghyfreithlon.

# 6. Pedleriaid

## 6.1 Diffiniad ac Ardystio

Mae pedler yn rhywun sy'n teithio ac yn masnachu ar droed, yn mynd o dref i dref neu dŷ i dŷ yn gwerthu nwyddau neu gynnig eu sgiliau mewn crefftau a gwerthu pethau fel lluniau a nwyddau cartref. Rhaid i bedler feddu ar dystysgrif a roddwyd gan brif gwnstabl yn yr ardal y maent yn byw ynddi. Mae'r dystysgrif yn ddilys am flwyddyn ac mae'n berthnasol ledled y Deyrnas Unedig. Mae rhywun sy'n gweithredu fel pedler heb dystysgrif yn cyflawni trosedd.

## 6.2 Rheolau Masnachu Pedler

Caiff person sy'n masnachu'n gyfreithlon â Thystysgrif Pedler gan yr Heddlu fasnachu mewn stryd ar sail gyfyngedig, ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â'r rheolau canlynol:

- Mae'n gwneud hynny ar droed
- Mae'n masnachu wrth deithio yn hytrach nag yn teithio er mwyn masnachu
- Mae pedler yn mynd at gwsmeriaid yn hytrach na chaniatáu iddynt ddod at y pedler
- Mae pedler yn werthwr yn hytrach nag yn drwsiwyr.
- Rhaid i bedler beidio ag aros yn ei unfan am gyfnodau hir o amser
- Rhaid i bedler beidio â gosod stondin ac aros i bobl agosáu

## 6.3 Gorfodi yn Erbyn Pedleriaid Ffug

Bydd methu â chydymffurfio â'r rheolau hyn yn gwneud y troseddwr yn agored i erlyn fel masnachwr stryd anghyfreithlon. Mae'r awdurdod trwyddedu yn gorfodi'r gyfraith sy'n ymwneud â masnachu stryd anghyfreithlon yn gadarn a bydd yn erlyn masnachwyr stryd anghyfreithlon

sy'n ceisio osgoi atebolrwydd trwy honni bod yn pedler pan nad yw hynny'n wir. Byddwn yn gweithio gyda'n hasiantaethau partner i atal rhwystr a niwsans. Mae troseddwr yn wynebu erlyniad ac atafaelu eu nwyddau.

## **7. Materion Amrywiol**

### **7.1 Cyfyngiadau Cyflogaeth Plant**

Mae cyflogi plant mewn gweithgarwch masnachu stryd yn cael ei reoli gan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963 sy'n gwahardd cyflogi plant o dan 17 oed mewn gweithgarwch masnachu stryd.

### **7.2 Ffioedd Trwyddedu**

Bydd yr awdurdod trwyddedu yn gosod ffi am roi trwydded masnachu stryd a chaniatâd er mwyn talu am y gost o ddarparu'r system reoleiddio.

## Atodiad A - Strydoedd a ddynodwyd fel strydoedd caniatâd ar gyfer masnachu stryd

Mae'r strydoedd canlynol yn ardal Cyngor Caerdydd wedi'u dynodi yn strydoedd caniatâd at ddibenion masnachu ar y stryd o dan Atodlen 4 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982:

Stryd y Castell	Newton Road
Stryt Siarl	Plas y Parc
Heol Neuadd y Ddinas	Heol y Parc
Teras Coldstream (am 5 metr o'r gyffordd â Heol	Stryt y Syfwr
Heol y Coleg, Canol y Ddinas	Heol Scott
Stryt y Dug	Heol y Grange
Arglawdd Fitzhamon	Heol Eglwys Ioan
Stryd Frederic	Heol Sant Ioan (symudol yn unig)
Heol Gerddi'r Orsedd	Heol Eglwys Fair
Green Street (am 18 metr o'r Gyffordd â Heol	Y Brodyrddy
Stryd Havelock	Yr Ais
Y Stryd Fawr	Heol y Drindod
Stryd Hill	Heol y Porth
Rhodfa'r Brenin Edward VII	Stryd Womanby
Heol Lecwydd	Stryd Wood
Rhodfa Lloyd George (o'r gyffordd â Hemmingway	Stryd Working
Rhodfa'r Amgueddfa	

## Atodiad B- Strydoedd a ddynodwyd fel rhai lle y mae masnachu ar y stryd wedi'i wahardd

Mae'r strydoedd canlynol yn ardal Cyngor Caerdydd wedi'u dynodi yn strydoedd gwaharddedig at ddibenion masnachu ar y stryd o dan Atodlen 4 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982:

Aberporth Road	Heol y Fferi	Heol Ninian
Stryd Adam	Heol y Fid-las	Heol y Gogledd
Heol Albany	Heol Abergwaun	Northern Avenue
Alder Road	Heol Fitzalan	Ffordd y Cefnfor
Stryd Alice	Stryd Frederic	Heol yr Hen Eglwys
Heol Allensbank	Rhodfa Gabalfa	Ordell Street
Amroth Road	Heol Gabalfa	Paget Street
Stryd Angelina	Gelligaer Street	Heol Pant-bach
Heol Archer	Gilwern Crescent	Heol Pant-mawr
Heol Atlas	Heol Glan y Nant	Heol y Parc, Yr Eglwys
Avon Street Lane	Glendale Avenue	Heol Penalun
Avondale Road	Heol Glossop	Heol Penarth
Heol Ball	Glyn Coed Road	Heol Pensisli
Barons Court Road	Y Rhodfa Fawr	Heol Pendwyallt
Beechley Drive	Lôn y Great Western	Stryd Pendyris
Belmont Walk	Greenfarm Road	Heol Penhill
Heol Bessemer	Green Street (wedi 18 metr o	Heol Pen-llin
Beulah Road	Heol Greenway	Pentrebane Road
Heol Llwynbedw	Heol y Brodyr Llwydion	Pentwyn Drive
Bishops Road	Plas y Neuadd	Pentwyn Road
Bishopston Road	Gwern Rhyddi Road	Heol Pen-y-lan
Blackoak Road	Habershon Street	Heol Plasmawr
Heol Blenheim	Heol Hadfield	Plasturton Avenue

Boulevard de Nantes	Hampton Court Road	Plymouth Wood Road
Brandreth Road	Hannah Street	Heol Portmanmoor
Heol y Bont, Ystum Taf	Harris Avenue	Portmanmoor Road
Stryt y Bont	Heol Pont-yr-Ais	Pwllmelin Road
Stryd Lydan	Heath Halt Road	Stryd y Cei
Broadhaven	Rhodfa Parc y Mynydd Bychan	Radyr Court Road
Heol Lydan	Heol Heathwood	Redhouse Road
Bromley Drive	Heol Hir	Heol Rhyd-y-pennau
Bryn Celyn Road	Heol Hemmingway	Heol Richmond
Burnham Avenue	Heol yr Hendre	Ridgeway Road
Stryd Bute	Heol Don	River View
Heol y Bwlch	Heol Ebwy	Riverside Terrace
Caeglas Road	Heol Esgyn	Heol Romilly
Lôn Caerau	Heol Isaf	Heol Orllewinol
Heol Caerau	Heol Isaf, Radur	Ffordd Rover
Heol Caerffili	Heol Llanishen Fach	Heol y Sanatoriwm
Cambria Road	Heol Pontprennau	Sandringham Road
Rhodfa'r Gamlas	Heol Trelái	Ffordd y Sgwner
Heol Caerdydd, Llandaf	Heol y Delyn	Heol Senghennydd
Carisbrooke Way	Heol-y-Deri	Severn Road
Stryd Carliwelydd	Stryd Herbert	Snowden Road
Stryd Caroline	Stryd Fawr, Llandaf	Clos Sophia
Castle Road, Tongwynlais	Hodges Row	South Loudon Place
Teras Cathays	Hodges Square	Ffordd y De
Heol y Gadeirlan	Ystâd Llwyncelyn	Heol y Sblot
Cefn Coed Road	Hollybush Road	Ffordd Gyswllt Dewi

Rhodfa Celyn	Holmesdale Street	Heol Sain Ffagan
Ffordd Gyswllt Ganolog, Dociau	Ipswich Road	Heol Stacey
Sgwâr Canolog	Janet Street	Stanway Road
Stryd Christina	Heol Kelston	Heol yr Orsaf, Ystum
Church Road, Yr Eglwys Newydd	Kimberley Terrace	Heol yr Orsaf,
Stryt yr Eglwys	King George V Drive	Rhodfa'r Orsaf
Ffordd Churchill	Kings Road, Treganna	Stuttgarter Strasse
Ffordd Gylchol y Dwyrain	Ffordd y Brenin	Arglawdd Dôl y Taf
Ffordd Gylchol y Gortlewin	Heol Ddwyreiniol y Llyn	Templeton Avenue
Heol y Plwca	Heol Orllewinol y Llyn	Templeton Close
Heol Clare	Lakeside Drive	Y Gwter
Stryd Clare	Ffordd Lamby	Y Lawnt, Llandaf
Heol Clarence	Lansdowne Avenue	Y Ffilog
Clearwater Road	Heol Lansdowne	Heol Draenen Pen-y-
Stryd Clifton	Rhodfa Lawrenny	Three Arches Avenue
Clive Road	Heol Lewis	Ffordd Tresilian
Clive Street	Heol Llys-faen	Trowbridge Road
Clydesmuir Avenue	Heol Llandaf	Stryd Tudor
Coed Cochwyn Avenue	Heol Llandennis	Heol Tweedsmuir
Rhodfa Colchester	Rhodfa Llanedern	Heol Tŷ Draw
Teras Coldstream (wedi 5 metr	Heol Llanedern	Rhodfa Tŷ Glas
Clos y Coleg, Yr Eglwys Newydd	Ffordd Lloneirwg	Heol Tŷ Glas
Heol y Coleg, Yr Eglwys Newydd	Heol Llangrannog	Heol Tŷ Gwyn
Collingdon Road	Rhodfa Llanrhymini	Heol Tŷ Nant
Collwill Road	Heol Llantrisant	Heol Tŷ Wern
Heol Colum	Rhodfa Lloyd George	Heol Tyn-y-Parc

Colwinstone Street	Longcross Street	Tynant, Yr Eglwys
Heol Corbett	Sgwâr Loudon	Stryd Tyndall
Heol y Gorfforaeth	Heol y Gadeirlan Isaf	Tynewydd, Yr Eglwys
Coryton Crescent	Plas Mackintosh	Upper Clifton Street
Coryton Rise	Heol Maes y Coed	Velindre Road
Rhodfa Countisbury	Heol y Maendy	Victoria Park Road
Heol Ddwyreiniol y Bont-faen	Ffordd y Faenor	Victoria Park Road
Heol Orllewinol y Bont-faen	Mardy Road	Virgil Street
Heol Crucywel	Mardy Street	Walker Road
Lôn Crockherbtown	Stryd Maria	Heol Watrel
Crofft y Genau Road	Ffordd Marlborough	Heol Waterloo
Ffordd y Goron	Heol Mary Ann	Heol Waungron
Heol y Crwys	Heol Merthyr, Tongwynlais	Heol Wellfield
Heol y Tollty	Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd	Stryd Wellington
Heol Cyncoed	Stryd Meteor	Heol Gwynllŵg
Dan yr Heol	Heol Llanfihangel	Rhodfa'r Gorrlewin
Danescourt Way	Lôn y Felin	Heol y Cawl
Deere Road	Mill Road, Trelái	Wheatley Road
Drope Road	Mill Road, Llys-faen	Heol yr Eglwys
Heol Dumballs	Mill Road, Tongwynlais	Rhodfa Nant Helyg
Plas Dumfries	Moorland Road	Heol Wilson
Dyfrig Road	Morris Avenue	Windsor Avenue,
Stryd Tyndal Ddwyreiniol	Mount Pleasant Avenue	Plas Windsor
Rhodfa'r Dwyrain	Heol Muirton	Windsor Road
Ffordd Gyswllt Trelái Mynediad y	Heol y Mynachdy	Windsor Road, Radur
Ely Road	Stryd Neville	Windway Road

Everest Avenue	New Road	Wolfs Castle Avenue
Ffordd Caledfwlch	Newborough Avenue	Heol Woodville
Heol y Dderwen Deg	Heol Casnewydd	Cilgant Wyndham
Heol y Tyllgoed	Heol Parc Ninian	